**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER**
**17 GORFFENNAF 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yng Nghaffi'r Hen Lys, Y Fflint ddydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sian Braun, Jean Davies, Ron Davies, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, George Hardcastle, Ted Palmer, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger.

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Patrick Heesom (yn lle'r Cynghorydd Ray Hughes)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Adele Davies-Cooke

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai; y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol; y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol; Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Rheolwr Budd-daliadau; Rheolwr Cymorth i Gwsmeriaid; Swyddog Comisiynu; Arweinydd Tîm Systemau a Hyfforddiant, a Phrentis Modern.
Roedd Mr Robbie Davison, Can Cook, yn bresennol cyn dechrau'r cyfarfod.

**YN Y CYFARFOD:**
Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Cyn dechrau'r cyfarfod, cyflwynodd y Rheolwr Budd-daliadau Mr. Robbie Davison o Can Cook, y cwmni a oedd yn cyflenwi'r *Good Food Hubs* yn Sir y Fflint. Diolchodd Mr. Robbie Davison i'r Pwyllgor am y cyfle i annerch yr Aelodau, a rhoddodd fraslun o Can Cook a chymorth bwyd/tlodi bwyd yn gyffredinol. Cynigiodd y gallai Can Cook ddarparu rhwng 650 a 700 o brydau bwyd am ddim i blant yn Sir y Fflint yn ystod gwyliau'r haf.

Holodd y Cynghorydd George Hardcastle a oedd Can Cook yn darparu prydau bwyd i bobl ddigartref a phobl yn cysgu ar y stryd. Er y dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai nad oedd neb yn cysgu ar y stryd yn Sir y Fflint, esboniodd Mr. Robbie Davison fod Can Cook yn canolbwyntio'n gryf ar weithio'n uniongyrchol â phobl oedd yn defnyddio banciau bwyd er mwyn sicrhau eu bod yn medru cael prydau bwyd ffres, ac yn Lerpwl darparwyd 39,000 o brydau bwyd yn y fath fodd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sut yr ariennid y Rhaglen Llwglyd Dros y Gwyliau, esboniodd y Rheolwr Budd-daliadau y darparwyd y rhan helaeth o'r cyllid gan Travis Perkins o gronfa waddol gymunedol y cwmni. Awgrymodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin y dylid anfon llythyr i Travis Perkins ar ran y Pwyllgor i ddiolch am y cyllid a ddarparwyd. Cefnogwyd hyn gan y Pwyllgor. Awgrymodd y Cynghorydd Paul Shotton y dylid cysylltu â Fforwm Busnesau Glannau Dyfrdwy a gofyn am roddion tuag at raglenni tebyg yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag alergeddau bwyd, esboniodd Mr. Davison bod yn rhaid i bob plentyn mewn cynllun chwarae gyflwyno ffurflen

gydsynio ar y diwrnod cyntaf, a bod y ffurflen honno'n cynnwys cwestiwn am alergeddau bwyd. Wedi casglu'r holl wybodaeth o'r ffurflenni cydsynio byddai'r cwmni'n addasu'r arlwy gan ystyried unrhyw alergeddau, yn ogystal â darparu bwyd llysieuol a heb glwten.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i Mr. Davison am y cyfle i flasu'r bwyd a ddarperid i blant dros yr haf, gan ddweud mor rhagorol yr oedd, ac am ddod i'r cyfarfod ac ateb cwestiynau'r Aelodau.

## 17. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.

## 18. STRATEGAETH TLODI BWYD

Cyflwynodd y Rheolwr Budd-Daliadau'r adroddiad ynglŷn â'r Strategaeth Tlodi Bwyd, a oedd yn amlinellu'r flaenoriaeth strategol o weithio i ddatrys tlodi bwyd.

Roedd y Strategaeth ddrafft ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 1. Fe'i cyflwynwyd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ddiweddar, ac fe'i cyhoeddid yn fuan wedi i'r Bwrdd ei mabwysiadu. Roedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint o blaid datblygu cynlluniau mewn partneriaeth gyda'r nod o leihau tlodi yn y Sir, ac yn ddiweddar rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth i ddatblygu a gweithredu Strategaeth Budd Cymunedol, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o flaenoriaethau strategol fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.

Fel yr esboniwyd yn yr adroddiad, roedd hi'n amlwg fod consensws cryf ynglŷn â'r heriau a'r amcanion a bennwyd gan y bwrdd amlasiantaethol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a bod llawer o sefydliadau unigol yn y gymuned yn gwneud gwaith da, fel banciau bwyd, er enghraifft. Gan ystyried yr holl waith oedd yn digwydd yn y Sir a'r cytgord rhwng strategaethau a dyheadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus amlasiantaethol Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, roedd angen cynllunio'r camau nesaf a dod i gytundeb yn eu cylch, yn ogystal â'r cyfraniadau y byddai'r partneriaid yn eu gwneud at gyflawni'r nodau oedd yn gysylltiedig â lleihau tlodi bwyd.

Disgrifiodd y Rheolwr Budd-Daliadau nifer o gynlluniau allweddol y gellid eu cyflawni yn y flwyddyn gyntaf, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad. Un o'r rheiny oedd cyflwyno'r Rhaglen Llwglyd Dros y Gwyliau ar gyfer plant ysgol. Roedd Mr. Robbie Davison wedi darparu manylion am y Rhaglen i'r Pwyllgor cyn dechrau'r cyfarfod.

I gloi, dywedodd y Rheolwr Budd-Daliadau fod Sir y Fflint ar flaen y gad wrth ffurfio cynghrair yng ngogledd Cymru er mwyn ennill gwell dealltwriaeth o'r materion rhanbarthol sy'n gysylltiedig â thlodi bwyd a diffyg sicrwydd cyflenwad bwyd. Roedd gobaith y byddai cynhadledd tlodi bwyd oedd i'w chynnal yng ngogledd Cymru fis Medi'n gyfle i ystyried cydweithio ledled y rhanbarth i fynd i'r afael â'r materion hyn, drwy rannu arferion gorau, dysgu ar sail profiadau a gweithio ar draws sectorau.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai i'r Rheolwr Budd-daliadau am yr adroddiad, ond mynegodd ei dristwch am fod angen y fath adroddiad, ac ynglŷn â nifer y teuluoedd yn Sir y Fflint oedd mewn tlodi bwyd. Soniodd am lansiad y Rhaglen Llwglyd Dros y Gwyliau oedd i'w gynnal ar 19 Gorffennaf, gan obeithio y byddai'r cynlluniau a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn rhoi terfyn ar dlodi bwyd yn y dyfodol, nid yn unig i blant ond hefyd i bobl ddi-waith a phensiynwyr.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ei fod yn Aelod o Fwrdd NEWydd, a oedd yn darparu prydau ysgol iach yn ystod y tymor, a'i fod yn falch o weld y darperid cynllun dros wyliau'r haf fel y gallai plant gael prydau bwyd cynnes ac iach. Rhoddodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol longyfarchiadau i'r Rheolwr Budd-Daliadau a'i thîm, gan ddweud mor falch yr oedd o weld y cydweithio rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus amlasiantaethol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gan gyfeirio at yr hyn yr oedd Comisiynydd Plant Cymru wedi galw ar Awdurdodau Lleol i'w wneud i fynd i'r afael â thlodi plant, a dywedodd ei bod yn falch bod y Cyngor yn bodloni'r gofynion hynny, yn ogystal â gofynion y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn.

Roedd y Cynghorydd Rosetta Dolphin yn amau gwerth am arian ar sail prisiau rhai o'r prydau bwyd, a dywedodd y gallai rhai teuluoedd a phensiynwyr fod yn gyndyn o dalu'r fath brisiau. Holodd hefyd a ddarperid dodrefn ac offer yn y canolfannau bwyd cymunedol. Esboniodd y Rheolwr Budd-daliadau nad oedd hi wedi gweld y prydau dan sylw, ond dywedodd mai hwn oedd y tro cyntaf i'r Cyngor weithredu cynllun o'r fath, ac y byddai'n hanfodol cael ymatebion pobl am y prisiau wrth baratoi cynlluniau i'r dyfodol. Pennwyd y prisiau ar sail rhai'r cyflenwr mwyaf oedd yn darparu'r un math o fwyd, ac er bod y prisiau'n debyg, roedd y prydau a ddarperid drwy'r cyhoedd yn rhai heb ychwanegion na siwgr. Nid rhai wedi rhewi oeddent chwaith, ond yn hytrach yn cadw'n ffres yn yr oergell am 4-7 o ddiwrnodau. Hefyd, yn hytrach na mynd â'r bwyd i gartrefi pobl, roedd y cynllun yn seiliedig ar yr egwyddor o ddod â chymunedau ynghyd. Dywedodd hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo i fanteisio ar gyfleoedd i brynu offer ag arian cymunedol.

Croesawodd y Cynghorydd Paul Shotton yr adroddiad, ac yn enwedig felly'r cydweithio oedd wedi digwydd, ond mynegodd bryderon ynglŷn â'r adroddiadau fod banciau bwyd yn mynd yn brin o nwyddau oherwydd cynnydd yn y galw. Soniodd am gynllun yn Swydd Efrog a oedd yn dosbarthu bwyd oedd bron â mynd yn hen i bobl mewn angen, yn ogystal â gerddi Pen y Llan yng Nghei Connah lle'r oedd y trigolion yn tyfu eu llysiau eu hunain.

Dywedodd y Cynghorydd Ron Davies y darparwyd prydau poeth yn yr un modd yn Eglwys Rivertown yn Shotton, a gofynnodd a ellid cysylltu â'r Eglwys i drafod ehangu'r cynllun. Dywedodd y Rheolwr Budd-Daliadau mai canolbwynt y gwaith am y tro oedd codi proffil y canolfannau bwyd cymunedol a'r Rhaglen Llwglyd Dros y Gwyliau, ond roedd yn gobeithio y byddai sefydliadau ledled Sir y Fflint yn cysylltu â'r Cyngor fel y gellid cysylltu cynlluniau â'i gilydd a'u hehangu yn y dyfodol. Dywedodd ei bod yn ffyddiog fod llawer o gynlluniau rhagorol eisoes ar waith yn Sir y Fflint, yn enwedig felly yn y trydydd sector.

Cytunodd y Cynghorydd George Hardcastle â'r sylwadau a wnaethpwyd, a diolchodd i'r Rheolwr Budd-Daliadau am yr adroddiad cadarnhaol. Holodd a

wnaethpwyd amcangyfrif o'r nifer o brydau bwyd oedd yn ofynnol. Esboniodd y Rheolwr Budd-Daliadau mai'r bwriad oedd i'r Rhaglen ddarparu 800 o brydau bwyd poeth bob dydd mewn 20 o safleoedd cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau'r haf. Roedd y ffigurau hynny'n seiliedig ar y nifer o blant a fynychodd gynlluniau chwarae'r llynedd, gan ychwanegu 30% er mwyn sicrhau y byddai pob plentyn yn cael pryd poeth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Sian Braun, cadarnhaodd y Rheolwr Budd-Daliadau y byddai'r Rhaglen Llwglyd Dros y Gwyliau ar gael i blant o'r oedran ar gyfer cynlluniau chwarae, ond byddai unrhyw ymatebion a geid drwy'r Rhaglen yn cael eu hystyried wrth gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Awgrymodd y Cynghorydd Mike Reece roi hysbyseb yn y Gwasanaethau i Aelodau i geisio rhoddion gan Aelodau at y Rhaglen Llwglyd Dros y Gwyliau. Cefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Bod y Pwyllgor yn dal i gefnogi'r gwaith oedd yn digwydd i fynd i'r afael â thlodi bwyd a diffyg sicrwydd bwyd yn Sir y Fflint.

## 19. <u>DIWEDDARIAD AR REOLI'R DDEDDFWRIAETH DDIGARTREFEDD O FEWN DEDDF TAI (CYMRU) 2014</u>

Cyflwynodd y Rheolwr Cymorth i Gwsmeriaid adroddiad oedd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r modd yr aethpwyd ati i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth newydd ar ddigartrefedd o fewn Deddf Tai (Cymru) 2014, ynghyd â rhai o'r heriau i'r Cyngor oedd ar y gorwel.

Yn 2017/18 bu cynnydd yn nifer yr aelwydydd a ddaeth at y Cyngor mewn perygl o ddigartrefedd, a defnyddiwyd mwy o lety dros dro. Roedd y Cyngor yn ymrwymo i atal cysgu ar y stryd ac wedi gweithio i gynllunio gwasanaethau a defnyddio grantiau i liniaru ar y perygl o gostau llety dros dro yn cynyddu, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Roedd y Tîm Dewisiadau Tai'n canolbwyntio lle bo modd ar atal digartrefedd a galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain, ac er mwyn sicrhau canlyniadau da yn hynny o beth, roedd ar y gwasanaeth angen cyflenwad o ddewisiadau tai oedd yn fforddiadwy ac y gellid eu darparu i aelwydydd oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Amlygwyd prinder y dewisiadau oedd ar gael fel problem gynyddol yn Adolygiad Digartrefedd Sir y Fflint, a byddai hynny'n ganolog i'r cynllun gweithredu a'r prosiectau fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.

Manylodd y Rheolwr Cymorth i Gwsmeriaid ynghylch yr wybodaeth ddiweddaraf am yr heriau'r oedd y Cyngor yn eu hwynebu, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad, sef:-

- Y Gofrestr Tai Cymdeithasol;
- Cynyddu nifer y cartrefi sydd ar gael yn y sector rhentu preifat;
- Llety Dros Dro;
- Atal Cysgu ar y Stryd;
- Aelwydydd Un Aelod; a

- Phobl Ddiamddiffyn a Phobl ag Anghenion Cymhleth.

I gloi, dywedodd y Rheolwr Cymorth i Gwsmeriaid fod Penaethiaid Tai pob yn o'r chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru wedi cwrdd â Sefydliad Tai Siartredig Cymru fis Mehefin 2016, a bod pawb wedi ymrwymo i gydweithio wrth ddatblygu strategaeth digartrefedd ranbarthol. Hysbysid y Cabinet o'r dull strategol a grybwyllwyd yn yr adroddiad ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, gan fod pob awdurdod lleol yng ngogledd Cymru'n llunio'i gynllun gweithredu lleol ei hun ar sail blaenoriaethau'r strategaeth ranbarthol.

Soniodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) fod angen cynyddu nifer y cartrefi oedd ar gael yn y Sector Rhentu Preifat, gan ddweud y dylai'r Cyngor fod yn ymwybodol o'r gwaith adeiladu ar gyfer y Wylfa Newydd ar Ynys Môn, a allai gael effaith negyddol ar lety yn y sector rhentu preifat, os nad oedd digon ar gael ar Ynys Môn ac yng Nghonwy. Dywedodd ei bod yn hanfodol dal ati i adeiladu tai ledled Sir y Fflint drwy'r Rhaglen Strategol Tai ac Adfywio (SHARP), gan fod y Cyngor yn un o'r Awdurdodau Lleol prin hynny oedd yn adeiladu tai cymdeithasol newydd.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai fod y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad yn y bore, ond y gallai fynd ag unrhyw sylwadau gan yr Aelodau yn ystod y cyfarfod yn ôl i'r Cabinet fel y gellid eu hystyried. Dywedodd fod y Cyngor yn medru darparu llety dros dro i bobl ddigartref, ond roedd hi'n bwysig fod Llywodraeth Cymru yn dal i ddarparu cyllid er mwyn sicrhau y gellir dal i ddefnyddio llety dros dro.

Croesawodd y Cadeirydd y ffaith na ddefnyddiwyd cymaint o lety gwely a brecwast. Adleisiodd y Cynghorydd George Hardcastle y sylwadau hynny gan longyfarch y Rheolwr Cymorth i Gwsmeriaid a'i thîm am sicrhau'r gostyngiad hwnnw.

Mynegodd y Cynghorydd Paul Shotton bryderon ynglŷn â'r ffaith fod 39% yn fwy o bobl wedi dod at y Cyngor yn ddigartref oherwydd newidiadau yn y gyfundrefn les, ac ynglŷn ag astudiaeth ddiweddar a ddangosodd fod 75% o denantiaid mewn dyledion oherwydd cyflwyno'r Credyd Cynhwysol. Croesawodd y gwaith yr oedd y Rheolwr Cymorth i Gwsmeriaid a'i thîm yn ei wneud i liniaru ar yr heriau hynny, a holodd faint o landlordiaid preifat yn Sir y Fflint oedd wedi cofrestru â Rhentu Doeth Cymru. Awgrymodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai fod yr Hwylusydd yn cysylltu â'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i gael ymateb ynglŷn â nifer y landlordiaid oedd wedi cofrestru â Rhentu Doeth Cymru. Cadarnhaodd y Prif Swyddog na châi tenantiaid eu rhoi mewn llety preifat ond pan oedd y landlordiaid wedi cofrestru â Rhentu Doeth Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Patrick Heesom ei fod yn croesawu'r adroddiad cynhwysfawr a oedd yn ei farn ef yn ymdrin â'r materion oedd wedi achosi'r cynnydd yn nifer y bobl oedd yn dod at y Cyngor mewn perygl o ddigartrefedd. Cyfeiriodd at sylwadau'r Prif Swyddog ynglŷn â diogelu dyfodol SHARP, a oedd yn hanfodol bwysig yn ei farn ef, a sicrhau cyflenwad priodol o dai fforddiadwy, ond cododd bryderon ynglŷn â datblygwyr yn dod o hyd i ffyrdd o fedru darparu llai o dai fforddiadwy nag oedd angen drwy gyflwyno nifer o geisiadau datblygu ar wahân ar gyfer yr un safleoedd. Dywedodd fod angen i'r Cyngor feithrin

perthynas waith agosach â landlordiaid preifat, a gofynnodd am sicrwydd y cyflwynid y Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol mewn cyfarfod o’r Pwyllgor yn y dyfodol cyn i’r Cabinet ei chymeradwyo.

Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai sicrwydd i’r Pwyllgor y cyflwynid y Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol i’r Pwyllgor Craffu cyn i’r Cabinet ei mabwysiadu. Dywedodd ei fod yn cytuno â’r sylwadau ynglŷn â meithrin cysylltiadau gwaith agosach â landlordiaid preifat, gan sôn ei fod ef a’r Prif Swyddog yn gweithio ar ddatblygu'r Fforwm Landlordiaid ymhellach.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Heesom ynglŷn â’r Gwasanaeth Brysbennu, esboniodd y Rheolwr Cymorth i Gwsmeriaid fod y Cyngor yn trin pob ymgeisydd yr un fath, ac wrth anfon llythyrau at ymgeiswyr yn darparu manylion y drefn apelio iddynt.

Cytunodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin â’r sylwadau blaenorol, gan ddweud fod angen i’r Cyngor ganolbwyntio ar SHARP. Cyfeiriodd at eiddo ‘anodd ei osod’ yn ei ward hi, gan awgrymu y gellid eu hail-lunio yn dai ag un neu ddwy ystafell wely, gan mai am y rheiny’r oedd y galw mwyaf. Cytunodd y Prif Swyddog â’r awgrym hwnnw a soniodd am y materion oedd wedi codi ers cyflwyno’r 'dreth ystafell wely' Soniodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai fod yno hefyd brinder o gartrefi mwy o faint mewn rhai ardaloedd o’r Sir, a dywedodd fod angen datblygiadau tai fforddiadwy ymhob cymuned yn Sir y Fflint.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Heesom at y cynnydd mewn ceisiadau cynllunio ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth ledled Sir y Fflint, a mynegodd bryderon ynglŷn â landlordiaid preifat yn lletya 5 neu 6 o bobl heb dalu Treth y Cyngor ond am un eiddo. Dywedodd fod angen mynd i’r afael â hynny. Awgrymodd hefyd fod angen i’r Cyngor weithio’n agosach â’r cwmnïau datblygu rhyngwladol er mwyn sicrhau datblygiadau mawr o dai fforddiadwy. Dywedodd y Prif Swyddog fod Waites, a oedd yn gweithredu’r cynllun SHARP, yn gwmni datblygu cenedlaethol, ond ei bod hefyd yn bwysig cydnabod y cyfraniad gan gwmnïau datblygu llai o faint oedd yn adeiladu cartrefi da.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â rheoli'r ddeddfwriaeth newydd o fewn Deddf Tai (Cymru) 2014;

(b) Cydnabod y themâu oedd yn dod i’r amlwg yn y Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol, a’r heriau’r oedd y Cyngor wedi’u hwynebu wrth ddod o hyd i ddewisiadau tai addas ar gyfer preswylwyr, a chefnogi’r cynlluniau ar gyfer lliniaru ar unrhyw risgiau pellach;

(c) Cymeradwyo’r cynigion i leihau digartrefedd yn y sir; a

(ch) Bod y Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol a’r Cynllun Gweithredu yn dod gerbron y Pwyllgor i’w ystyried yn y dyfodol, cyn i’r Cabinet ei mabwysiadu.

## 20. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 yp a daeth i ben am 3.15 yp)

..................................................
**Cadeirydd**